# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

**2011 mccc 4**

## RHAN 10

CYFFREDINOL

### 178 Cychwyn

(1) Daw'r darpariaethau a ganlyn i rym drannoeth y diwrnod y cymeradwyir y Mesur hwn gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor—

(a) adrannau 58, 77, 79, 80 a 159;

(b) y Rhan hon (ac eithrio adran 176);

(c) Rhan E o Atodlen 4 (ac adran 176(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhan E o Atodlen 4).

(2) Daw'r darpariaethau a ganlyn i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddau fis yn dechrau ar y diwrnod y cymeradwyir y Mesur hwn gan Ei Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor—

(a) Rhannau 3 a 4;

(b) adran 55 ac adran 76;

(c) Penodau 2 i 9 o Ran 7;

(d) Rhannau B ac C o Atodlen 4 (ac adran 176(2) i'r graddau y mae'n ymwneud â Rhannau B ac C o Atodlen 4).

(3) Yn ddarostyngedig i is-adrannau (1) a (2), daw'r Mesur hwn i rym yn unol â darpariaeth a wneir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 178 mewn grym ar 11.5.2011, gweler **a. 178(1)(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Adran 178.